

CANOLFAN FFILM CYMRU

Dalen Gefnogi Gwneuthurwyr Ffilm

Beth ydy Canolfan Ffilm Cymru (FHW)?

Rhagor o ffilmiau, rhagor o bobl, rhagor o leoedd.

Rydym yn gweithio gyda dros **210** o sinemau, canolfannau celf, lleoliadau cymunedol, cymdeithasau, gwyliau ac ymarferwyr ffilm ehangach yng Nghymru i ddatblygu dulliau dyfeisgar a chynhwysol i bobl ar draws Cymru gael mynediad i sinema annibynnol Prydeinig a rhyngwladol.

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn un o wyth 'canolfan' DU gyfan a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) i ffurfio'r **Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm** (FAN), gyda **Chapter** fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru. Mae canolfannau eraill ar gael yn Llundain, Canolbarth Lloegr, Gogledd Iwerddon, De Orllewin Lloegr, yr Alban, Gogledd a De Ddwyrain Lloegr ac rydym yn gweithio gyda nhw ar fentrau DU gyfan.

Ein nod ydy datblygu a chefnogi'r sector arddangos trwy ymchwil amrywiol, cefnogaeth sgiliau a phrosiectau datblygu cynulleidfa, sydd yn amrywio o rwydwaith sinema cymunedol yn y **Cymoedd**, i fentrau marchnata ar y cyd ar draws lleoliadau yng ngogledd Cymru (gweler **Off y Grid**).

Ers 2013, rydym wedi cefnogi 130 o brosiectau sinema cyffrous, yn cynnwys **Roald Dahl ar Ffilm**, **Rhwydwaith Ffilm Hoyw DU** ac rydym yn arwain **Strategaeth Mynediad FAN**, gan gyrraedd cynulleidfa o dros 226,000.

I ddarllen rhagor am ein gwaith hyd yn hyn, gweler ein huchafbwyntiau yma:

www.canolfanffilmcymru.org/amdanom-ni/Uchafbwyntiau

1. Sut rydym yn cefnogi ffilmiau Cymreig?

"Yr hyn mae'r ffilmiau yma ei angen ydy ymgysylltiad diwylliannol a gwelededd" –
Gwneuthurwr ffilm

Yn FHW rydym yn dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, ein hiaith a'n diwylliant trwy ein strategaeth ffilmiau Cymreig.

Ers 2013 rydym wedi cefnogi arddangos 65 o ffilmiau Cymreig unigryw, 24 ohonyn nhw na fydden nhw wedi cael eu rhyddhau i theatrau fel arall. Rydym wedi buddsoddi dros £35,000 mewn prosiectau'n arddangos ffilmiau Cymreig (fel blwyddyn o ffilmiau Cymreig yn y **Phoenix Ton Pentre**) ac rydym wedi gwella cynulleidfa oedd ar gyfer teitlau ffilm Cymreig sydd wedi'u hunanddosbarthu o 23%.

Rydym yn gweithio gydag arddangoswyr ar y gweithgareddau ffilmiau Cymreig canlynol:

- **Dyddiau Rhagddangos Ffilmiau Cymreig** sydd yn galluogi arddangoswyr i weld ffilmiau o flaen llaw, cefnogi rhaglennu a thrafodaethau ehangach (yn amodol i argaeledd cynnwys addas a digonol o fewn ffrâm amser ymarferol. Rydym wedi cynnal 8 diwrnod rhagddangos mewn 6 gwahanol lleoliad ar draws Cymru. **"Heb weld y ffilm yn y Diwrnod Rhagddangos mae'n debygol na fyddem wedi dangos y ffilm yma."** – Aelod o Ganolfan Ffilm Cymru



CHAPTER



- Rydym yn cynnig [ystafell dangos ar-lein](#) i aelodau'r Ganolfan lle mae modd iddyn nhw wyllo dangoswyr ffilm Cymreig rhwng Dyddiau Rhagddangos
- Rydym yn anfon **newyddlen** rheolaidd yn cynnwys diweddariadau ar ffilmiau sy'n cael eu rhyddhau,
- Rydym yn siarad ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda **dosbarthwyr, gwneuthurwyr ffilm a phartneriaid** fel Ffilm Cymru Wales, INTO Film a Sgrin Cymru,
- Rydym yn rhedeg **Rhwydwaith Rhaglennwyr Ifanc** BFI FAN, gyda 4 lleoliad yng Nghymru a llawer mwy ar draws y DU. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gynulleidfaoedd ifanc roi adborth ar ffilmiau Cymreig,
- Rydym yn cynnig adran [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) ar ein gwefan lle mae catalog o ffilmiau Cymreig wedi'u rhestru,
- Rydym yn cynnig [cymorth ariannol i arddangoswyr](#) i helpu i hyrwyddo ffilmiau wedi'u gwneud yng Nghymru, ffilmiau Cymraeg a ffilmiau archif.

2. Sut y gall Canolfan Ffilm Cymru gefnogi fy ffilm a pha wybodaeth sydd angen i mi ei rhoi?

Os ydych yn gwneud, neu wedi gwneud ffilm Gymreig ac os hoffech inni ei hyrwyddo i dros 250 o arddangoswyr yng Nghymru, llanwch y [ffurflen](#) yma os gwelwch yn dda. Fe fyddwn yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Manylion neu gyswllt archebu dosbarthwr (os yn berthnasol)
- Telerau archebu (os yn safonol)
- Crynodeb,
- Manylion rhyddhau (dyddiad, amser rhedeg, tystysgrif, fformat)
- Cysylltiadau Cymreig (cyfarwyddwr, awdur, cynhyrchydd, talent ar y sgrin, lleoliadau)
- Unrhyw gynlluniau arbennig ar gyfer ei rhyddhau,
- Unrhyw archebion cyfredol, yn cynnwys gwyliau,
- Nifer o ddelweddau o ansawdd uchel a dolen i ragflas,
- Manylion am unrhyw ddeunyddiau marchnata y gallwch eu cyflenwi,
- Disgrifiad o unrhyw ddeunyddiau addysgol sydd ar gael.

Am ein diffiniad o ffilm Gymreig, darllenwch ein [Canllawiau Canolfan Ffilm Cymru](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses yma, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Lisa@filmhubwales.org.

3. Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n gallu helpu i gyllido fy ffilm?

Dydy Canolfan Ffilm Cymru ddim yn gallu cynnig cymorth ariannol ar gyfer cynhyrchu, datblygu na dosbarthu ffilmiau, yn cynnwys premieres ffilmiau. Gweler fanylion am bartneriaid defnyddiol eraill isod.

Fyddwch chi'n helpu i ddosbarthu fy ffilm?

Ni all Canolfan Ffilm Cymru weithredu fel dosbarthydd/archebwr oherwydd maint a chylch gwaith ein fim. Unwaith y byddwn wedi hyrwyddo eich ffilm i arddangoswyr fe fyddwn yn eu hannog i archebu'n uniongyrchol trwy eich cyswllt archebu.



CHAPTER



Ydych chi'n gallu rhoi manylion cyswllt sinemau Cymreig imi?

Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith mawr iawn o sinemau ac am resymau diogelu data ni allwn ryddhau rhestrau cyswllt. Rydym yn hapus iawn i anfon gwybodaeth am eich ffilm ymlaen a'u hannog i gysylltu gyda chi.

Pryd ddylwn i anfon gwybodaeth am fy ffilm atoch?

Mae nifer o aelodau Canolfan Ffilm Cymru yn creu rhaglen dri mis o flaen llaw felly mae derbyn gwybodaeth mewn da bryd yn bwysig wrth gefnogi'r ffenestr theatr. Mae croeso i dameidiau o flaen llaw a nodyn i'r dyddiadur, hyd yn oed os ydy dyddiadau rhyddhau yn newid.

Un sgrin sydd gan y rhan fwyaf o sinemau yng Nghymru ac felly mae ffilmau Cymreig yn rhannu gofod sgrin gyda theatrau, sinemau prif ffrwd a lleoliadau'n cael eu llogi'n allanol. Mae hyn yn rheswm da arall dros rannu gwybodaeth o flaen llaw.

Beth os nad wyf yn clywed oddi wrth y sinemau?

Mae yna alw am ffilmau Cymreig gan arddangoswyr ond cofiwch mai dim ond un person sydd ganddyn nhw'n gweithio ar y rhaglen. Efallai bod y person yma'n Rheolwr/wraig Cyffredinol hefyd, yn Swyddog Marchnata ac yn weithredwr Blaen Tŷ ac mae rhaid i rai ymateb i gannoedd o geisiadau ar gyfer archebion ffilm bob mis. Byddwch yn amyneddgar os nad ydyn nhw'n ymateb ar unwaith.

Ydw i'n gallu dod yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Sefydlwyd Canolfan Ffilm Cymru i gefnogi'r sector arddangos ffilmau yng Nghymru. Mae ein haelodaeth a'n cymorth ariannol yn agored i sinemau, canolfannau celf, lleoliadau cymunedol, cymdeithasau a chyrrff eraill sydd yn dangos ffilmau i gynulleidfaoedd. Os ydych yn wneuthurwr ffilm, yn ddsbarthydd neu yn ymarferydd ffilm arall, dydych chi ddim yn gymwys i fod yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru ond rydym bob amser yn hapus i drafod sut y gallwn helpu.

Ai dim ond ffilmau newydd ydych chi'n eu cefnogi?

Rydym yn annog aelodau i archebu ffilmau Cymreig, ffilmau byr ac archif ar draws y degawdau! Mae ein catalog [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) yn cynnwys manylion archebu ar gyfer amrediad eang o ffilmiau Cymreig ac rydym yn rheolaidd yn cefnogi aelodau gyda thymhorau ffilmau Cymreig.

Ydych chi'n gallu hyrwyddo cyllido torfol ar gyfer fy ffilm?

Ydym, os ydy'r ffilm o ddiddordeb i'n haelodau. Anfpnwch y manylion atom ac fe fyddwn yn eu rhannu ar draws ein rhwydwaith cymdeithasol

Ewch i'n hadran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan am ragor o wybodaeth:

www.canolfanffilmcymru.org/amdanom-ni/cwestiynau-cyffredin



CHAPTER



Market Road, Canton, Cardiff, CF5 1QE | www.filmhubwales.org

Fforddy Farchnad, Treganna, Caerdydd, CF5 1QE | www.canolfanffilmcymru.org

4. Partneriaid defnyddiol eraill:

Ffilm Cymru Wales (FCW) ydy'r corff arweiniol ar gyfer ffilm yng Nghymru. Maen nhw'n cefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr Cymraeg neu awduron sydd wedi'u lleoli yng Nghymru gyda chyllid datblygu a chynhyrchu, cymorth a mentora. Eu nod ydy dod â gwneuthurwyr ffilm a chynulleidfaoedd at ei gilydd i wyllo ffilmiau mewn lleoliadau. Maen nhw'n hyrwyddo'r defnydd o ffilm mewn addysg ac adfywio cymunedol, gan gynhyrchu adnoddau ar y cyd gydag athrawon i gynorthwyo llythrennedd a dysgu. www.ffilmcymruwales.com

Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) ydy'r corff arwain ar gyfer ffilm yn y DU. Maen nhw'n dyfarnu cyllid loteri ar gyfer cynhyrchu ffilmiau, dosbarthu, addysg, datblygu cynulleidfa gwybodaeth ac ymchwil marchnata. www.bfi.org.uk

BFI NET.WORK - cydweithrediad ar draws y DU i ddatblygu talent gwneud ffilmiau. Maen nhw'n helpu awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd ar eu ffordd i'w ffilm gyntaf. <https://network.bfi.org.uk>

Sgrin Cymru, yn annog cynrychiadau ffilm a theledu i ddefnyddio lleoliadau criwiau a chyfleusterau ledled Cymru. Mae Sgrin Cymru, sydd yn rhan o dîm Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru, yn cynorthwyo cynrychiadau ar sail ymarferol gan sicrhau bod eu gwariant yn yr economi Gymreig ar ei fwyaf. www.businesswales.gov.wales/walescreen

INTO Film, yn rhoi cyfle i bob person ifanc rhwng 5 ac 19 oed yn y DU i brofi ffilm yn greadigol. Maen nhw'n cefnogi athrawon ac addysgwyr yn eu defnydd o ffilm, yn cynnig clybiau ffilm, hyfforddiant a digwyddiadau allgyrsiol ar draws y DU. www.intofilm.org

BAFTA CYMRU: Yn dathlu'r gorau yn y diwydiannau teledu a ffilm yng Nghymru, trwy'r gwobrwyon academi Cymru blynyddol, yn cefnogi talent creadigol ac yn gweithredu rhestr o wyliau cydnabyddedig, gyda chefnogaeth aelodaeth y diwydiant creadigol. www.bafta.org/wales

PINEWOOD: Yn gartref i 70,000 troedfedd sgwâr o ofod saethu a 70,000 troedfedd sgwâr o ofod cynhyrchu defnydd cymysg. www.pinewoodgroup.com/our-studios/uk/pine-wood-studio-wales

Cysylltiadau:

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ganolfan Ffilm Cymru cysylltwch gyda:

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan - hana@filmhubwales.org / 02920 353740

Jennifer Geddes, Swyddog Marchnata - jennifer@filmhubwales.org / 02920 311067



CHAPTER

